

Ombitasvir-paritaprevir-ritonavir gyda neu heb dasabuvir i drin hepatitis C cronig

Tachwedd 2015

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir Ombitasvir-paritaprevir-ritonavir (Viekirax) gyda neu heb dasabuvir (Exviera) fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â rhai mathau (a elwir yn enoteipiau) o [hepatitis C cronig](#). Caiff ei gymryd weithiau gyda ribafirin. Gweler tabl 1.

Tabl 1 Ombitasvir-paritaprevir-ritonavir gyda neu heb dasabuvir ar gyfer oedolion sydd â hepatitis C cronig

Math o hepatitis C	Triniaeth a argymhellir gan NICE	Hyd y driniaeth
1a, heb sirosis	Ombitasvir-paritaprevir-ritonavir gyda dasabuvir a ribafirin	12 wythnos
1a, gyda sirosis	Ombitasvir-paritaprevir-ritonavir gyda dasabuvir a ribafirin	24 wythnos
1b, heb sirosis	Ombitasvir-paritaprevir-ritonavir gyda dasabuvir	12 wythnos
1b, gyda sirosis	Ombitasvir-paritaprevir-ritonavir gyda dasabuvir a ribafirin	12 wythnos
4, heb sirosis	Ombitasvir-paritaprevir-ritonavir gyda ribafirin	12 wythnos
4, gyda sirosis	Ombitasvir-paritaprevir-ritonavir gyda ribafirin	24 wythnos

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych enoteip 1 neu 4 o hepatitis C cronig a bod eich tîm meddygol yn credu mai ombitasvir-paritaprevir-ritonavir gyda neu heb dasabuvir yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai'r driniaeth fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd ombitasvir-paritaprevir-ritonavir gyda neu heb dasabuvir oherwydd bod y manteision i bobl â hepatitis C cronig yn cyfiawnhau ei gost.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae hepatitis C yn afiechyd o'r iau a achosir gan firws hepatitis C. Mae 6 math gwahanol (genoteipiau) o'r firws. Mae rhai sy'n cael eu heintio gan hepatitis C yn gwella'n gyflym heb driniaeth, ond mae'r mwyafrif o bobl yn datblygu haint hirbarhaol; fe'i gelwir yn hepatitis C cronig. Gall pobl sydd â hepatitis C cronig deimlo'n iach am nifer o flynyddoedd, ond mae'r firws yn achosi niwed i'r afu a gall wneud iddynt deimlo'n sâl.

Mae ombitasvir-paritaprevir-ritonavir (Viekirax) a dasabuvir (Exviera) yn gyffuriau a ddefnyddir i drin genoteipiau 1 a 4 o firws hepatitis C. Cânt eu cymryd weithiau gyda chyffur arall, o'r enw ribafirin, a gall gael gwared ar y firws mewn pobl nad ydynt erioed wedi cael triniaeth neu sydd wedi cael triniaeth o'r blaen na gafodd wared ar y firws.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- Ymddiriedolaeth Afu/Iau Prydain, 0800 652 7330, www.britishlivertrust.org.uk
- Ymddiriedolaeth Hepatitis C, 0845 223 4424, www.hepctrust.org.uk
- HIV i Base, 0207 407 8488, www.i-base.info
- Liver4Life, 0800 074 3494, www.liver4life.org.uk
- Terrence Higgins Trust, 0808 802 1221, www.tht.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1739-6